Cynllun Gwasanaeth Gwasanaethau'r Ddinas 2018-22 (2020/21)

Cynnwys

Cyflwyniad a Chefndir	Tudalen 1
Cyllid	Tudalen 5
Rhaglenni a Phrosiectau Mawr 2020/21	Tudalen 5
Amcanion / Camau Gweithredu Cynllun Gwasanaeth 2020/21	Tudalen 6
Mesurau Perfformiad	Tudalen 23
Cofrestr Risg y Gwasanaeth	Tudalen 25

Cyflwyniad a Chefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff sector cyhoeddus bennu amcanion Llesiant yn eu Cynlluniau Corfforaethol. Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd 2017-22 wedi pennu pedwar amcan Llesiant sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Nodau Llesiant Cymru:

1. Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth;
2. Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd;
3. Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol a gwydn, ac

Nodau Adfer Strategol Casnewydd

Ar ddechrau 2020, wynebodd Cymru bandemig Covid 19 sydd wedi effeithio ar y modd y mae Cyngor Casnewydd yn darparu ei wasanaethau i gymunedau. Ymateb cychwynnol y Cyngor oedd diogelu gwasanaethau rheng flaen, cefnogi'r rhai sy'n agored i niwed yn y gymuned a sicrhau parhad gwasanaethau. Ar lwybr adferiad y Cyngor ac wrth adfer gwasanaethau, mae Cyngor Casnewydd wedi sefydlu Nodau Adfer Strategol a fydd yn galluogi'r Cyngor i ddysgu o'r effeithiau a achoswyd gan Covid 19, yr heriau newydd, a rhai sy'n dod i'r amlwg, sy'n wynebu gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd wedi deillio o ffyrdd newydd o weithio. Bydd y Nodau hyn yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor a bydd y Cynllun Gwasanaeth hwn yn helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Gwasanaethau'r Ddinas

Mae Gwasanaethau'r Ddinas yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i Ddinas Casnewydd, sy'n effeithio ar bob preswylydd, busnes ac ymwelydd yn y ddinas. Derbynnir yn gyffredinol fod dibynadwyedd ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dylanwadu'n sylweddol ar ganfyddiad rhanddeiliaid o'r Cyngor a'r Ddinas fel lle i fyw, ymweld neu gynnal gweithgaredd busnes. Mae'r ystod eang o wasanaethau nid yn unig yn effeithio ar ansawdd bywyd a llesiant ein cymunedau ond hefyd yn effeithio'n gadarnhaol ar amcanion fel cynhwysiant cymdeithasol, diogelwch cymunedol a'r economi leol.

Mae poblogaeth Casnewydd wedi cynyddu o 137,642 yn 2001 i 153,302 yn 2018 (amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol) law yn llaw â thwf mewn busnesau newydd a datblygiadau tai. Erbyn 2030, rhagwelir y bydd poblogaeth Casnewydd yn cynyddu ymhellach i 162,072 (Stats Cymru). Mae'r twf hwn yn cyfrannu at amcan y Cyngor fel lle i ddinasyddion fyw, ymweld neu gynnal busnes yng Nghasnewydd. Ond mae hyn hefyd yn rhoi galwadau cynyddol ar wasanaethau rheng flaen hanfodol a seilwaith ar draws y ddinas hon ochr yn ochr â gostyngiad yng nghyllid, pwysau ariannol ac adnoddau'r Cyngor. Yn ogystal, mae mwy o bwysau ar y gwasanaeth i ystyried cynaliadwyedd hirdymor y Ddinas a'r camau ataliol i leihau effeithiau amgylcheddol lle mae cymunedau'n byw, yn ymweld â hwy ac yn gweithio.

Er mwyn lliniaru effaith y pwysau hyn, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar welliannau gasanaeth a fydd yn darparu gwasanaeth modern, effeithiol sy'n cael ei reoli'n dda sy'n diwallu anghenion a dyheadau rhanddeiliaid nawr ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain ac mae anegn i'r gwasanaeth weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector di-elw i'n helpu i gyflawni ein nodau. Gall hyn hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethu'r gwasanaethau statudol ac anstatudol a ddarperir ar hyn o bryd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau fel corff cyhoeddus ond hefyd yn ychwanegu gwerth i ddinasyddion Casnewydd. Felly, mae'n hanfodol bod cymunedau a rhanddeiliaid eraill yn cymryd rhan drwy gydol y broses ac yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.

Mae Gwasanaethau'r Ddinas wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn cwmpasu technolegau newydd, datblygiadau arloesol a chyfleoedd newydd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, lleihau cost darparu gwasanaethau a chynhyrchu incwm i'r Cyngor. Sylweddolir hefyd mai cyfyngedig dros gyfnod o amser yn unig fydd yr arbedion effeithlonrwydd a ddaw yn sgil gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Felly, bydd Gwasanaethau'r Ddinas yn canolbwyntio ar y galw am wasanaethau ac yn bwysicach na hynny, rheoli'r galw.

Gwasanaethau Priffyrdd a Pheiriannegol

- Cynnal a Chadw Priffyrdd - Cynnal a chadw ffyrdd, troedffyrdd a llwybrau troed yn adweithiol ac wedi'u cynllunio
- Cynnal a Chadw Draeniau - Cynnal a chadw priffyrdd a draenio tir
- Arolygiaeth Diogelwch Priffyrdd - Archwiliadau diogelwch statudol ar asedau priffyrdd
- Rheoli'r Fflyd - Rheoli gwaith cynnal a chadw fflyd, telematieg, defnydd a chaffael
- Tîm Prosiectau Peirianneg - Dylunio a rheoli prosiectau peirianneg cyfalaf
- Meysydd Parcio - Gweinyddu maes aml-lawr, meysydd parcio ar lawr a chyfleusterau parcio busnes y ddinas
- Gorfodi Parcio Sifil – cyflawni dyletswyddau gorfodi ledled y ddinas.

- Rheoli datblygu priffyrdd - Mae'r Tîm Rheoli Datblygu Priffyrdd yn cyflawni dyletswyddau fel yr Awdurdod Priffyrdd a'r ymgynghorai statudol ar Geisiadau Cynllunio sy'n effeithio ar briffyrdd a thrafnidiaeth. Rydym hefyd yn rheoli datblygiad priffyrdd, mabwysiadu priffyrdd newydd ac yn arwain ar fentrau mawr sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.
- Gorchmynion Diogelwch Priffyrdd a Thraffig - Hyrwyddo a sicrhau diogelwch sy'n gysylltiedig â phriffyrdd a chludiant drwy fentrau lleihau damweiniau, addysg a rheoli defnydd drwy greu gorchmynion rheoleiddio traffig
- Addysg a Hyfforddiant Diogelwch - Darparu adnoddau addysg a hyfforddiant i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Ddinas ac yn cynnal hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn i dynnu sylw at bwysigrwydd diogelwch ar y ffyrdd, gan ganolbwyntio ar yrwyr, reidwyr, beicwyr a cherddwyr. Y nod yw gwneud y ffyrdd yn fwy diogel i bawb eu defnyddio.
- Goleuadau stryd - Darparu a chynnal goleuadau stryd ac arwyddion wedi'u goleuo ar y rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig
- Signalau Traffig - Darparu a chynnal a chadw'r holl systemau rheoli traffig a chroesfannau rheoledig
- Arwyddion Traffig - Cynnal a chadw'r holl arwyddion sy'n gysylltiedig â phriffyrdd a marciau cerbytffyrdd
- Peirianneg Strwythurol - Arolygu a chynnal holl bontydd priffyrdd y ddinas, strwythurau cynnal, strwythurau a chwlfertau
- Gwaith Stryd - Gweithredu o dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (NRSWA), ac wedi'i hategu gan Reoliadau a Chodau Ymarfer perthnasol, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwaith yn y briffordd gan ymgymerwyr (gan gynnwys cwmnïau cyfleustodau) a gwaitho at ddibenion ffyrdd
- Rheoli Dŵr - Y Cyngor yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol dros Gasnewydd. (Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol) Yn gyfrifol am arwain ar gydgysylltu rheoli perygl llifogydd ar draws y ddinas
- Bwrdd Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (BCC/*SAB*) – Swyddogaeth statudol sy'n cymeradwyo pob datblygiad newydd dros 100 metr sgwâr
- Rheoli Asedau - Yn darparu'r modd i'r awdurdod ddeall gwerth ac atebolrwydd y sylfaen asedau priffyrdd sylweddol a gwneud y penderfyniadau strategol cywir i sicrhau bod potensial pob ased yn cael ei ddiogelu a'i ddefnyddio'n llawn.
- Patrolau croesfannau ysgolion Gwasanaethau Trafnidiaeth Teithwyr - Yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cludiant i Ysgolion, y cyhoedd, cymunedau a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dibynnu ar anghenion y defnyddiwr.
- Rôl cleient ar gyfer Gorsaf Fysiau Casnewydd.

Gwasanaethau Gwastraff a Glanhau:

- Gwasanaethau aelwydydd - mae'r adran yn darparu'r gwasanaethau casglu canlynol:
  1) Casgliadau ar gyfer yr holl ddeunyddiau ailgylchadwy (plastigau, papur, caniau, gwydr, tecstilau, eitemau trydanol bach) a gwastraff bwyd. Darperir y gwasanaeth hwn gan Wastesavers mewn partneriaeth â'r Cyngor.
  2) Casgliadau ar gyfer gwastraff gweddilliol a gwastraff gardd. Darperir y gwasanaethau hyn yn fewnol.
- Gwasanaethau masnach - mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth casglu y gellir codi tâl amdano i fusnesau, ar gyfer gwastraff gweddilliol ac ailgylchadwy sych cymysg
- Casgliadau arbennig - mae'r adran hefyd yn darparu casgliadau o eitemau swmpus yn uniongyrchol o gartref y preswylwyr; mae angen archebu'r gwasanaeth hwn ymlaen llaw ac mae'n destun ffi.
- Gweithgareddau ailgylchu - mae'r Cyngor hefyd yn trefnu pob math o wahanol ymgyrchoedd a gweithgareddau, i hyrwyddo ailgylchu ar draws y Ddinas gyfan. Er enghraifft, cyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu a churo drysau penodol, a gweithgareddau mewn ysgolion.

- Addysg a Gorfodi Gwastraff - mae gan y Cyngor dîm bach o swyddogion gorfodi ac ymgysylltu sy'n helpu i fynd i'r afael â materion tipio anghyfreithlon a sicrhau bod gwastraff yn cael ei ailgylchu/gwaredu'n briodol
- Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref a banciau cyrchu - mae'r adran yn rhedeg CAGC y Cyngor, sydd wedi'i leoli ar safle Docksway, lle gall preswylwyr gymryd ystod eang o ddeunyddiau gwahanol i'w hailgylchu neu eu hailddefnyddio, yn rhad ac am ddim. Mae siop

ailddefnyddio hefyd ar y safle, lle gall preswylwyr brynu amrywiaeth o gynhyrchion mewn cyflwr da sydd wedi'u hailddefnyddio. Yn ogystal, mae nifer o fanciau cyrchu wedi'u dosbarthu ar draws y Ddinas lle gall dinasyddion hefyd gael gwared ar eu gwastraff ailgylchadwy.

- Safle Tirlenwi - mae'r Cyngor yn rhedeg ei safle tirlenwi ei hun, sydd wedi'i leoli yn Docks Way, lle mae rhywfaint o wastraff gweddilliol na ellir ei ailgylchu yn cael ei waredu; mae'r safle hefyd yn agored i gleientiaid masnachol, gan ddarparu incwm i'r Cyngor. Mae'r safle hefyd yn cynnwys cell bwrpasol ar gyfer gwaredu deunydd peryglus, asbestos halogedig
- Gwasanaethau Glanhau - Glanhau Strydoedd, cael gwared ar sbwriel a graffiti a chwistrellu chwyn

Gwasanaethau'r Amgylchedd a Hamdden

- Datblygu Mynediad a Hawliau Tramwy - Gwasanaethau statudol i gynnal a gwella'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, cydymffurfio â dyletswyddau o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Gwasanaethau Cefn Gwlad - rheoli Gwarchodfeydd Natur a Safleoedd o Ddiddordeb er Cadwraeth Natur yr Awdurdod. Cydgysylltu grwpiau gwirfoddoli a gweithgareddau a digwyddiadau awyr agored fel teithiau cerdded tywys
- Gwasanaethau coedyddiaeth - rheoli atebolrwydd yr Awdurdod o ran coed a choetiroedd ym mherchnogaeth y cyngor a swyddogaeth GAC
- Gwasanaethau Ecoleg - cyngor ecolegol arbenigol ar gyfer holl wasanaethau'r cyngor, yn enwedig cynllunio. Rheoli cadwraeth ar gyfer safleoedd cynghorau.
- Bioamrywiaeth ac Addysg - darparu cyfleoedd i ysgolion a grwpiau eraill ymgymryd ag addysg awyr agored ac amgylcheddol ar dir yr ysgol a lleoliadau awyr agored eraill. Datblygu a defnyddio tiroedd ar gyfer gweithgareddau gan gynnwys sesiynau sy'n benodol i'r cwricwlwm, Ysgol Goedwig, crefft llwyn, gweithgareddau ailgylchu a hyfforddiant athrawon.
- Gwasanaethau Tirlunbio - darparu mewnbwn tirlunio ac amgylcheddol i gynllunio gwasanaethau wrth lunio polisi a rheoli datblygu
- Gwasanaethau Profedigaeth - gwasanaethau claddu, rheoli pedair mynwent dinas ac Amlosgfa ranbarthol
- Rheoli Parciau a Hamdden - rheolaeth strategol a gweithredol ar barciau ffurfiol ac anffurfiol y ddinas, mannau chwarae a safleoedd mannau agored
- Rhandiroedd – rheoli Safleoedd Rhandiroedd y ddinas a chanllawiau ar gyfer rhandiroedd hunanreoledig
- Cynnal a Chadw Tiroedd - Cynnal coed, glaswellt a'r ystâd feddal
- Cyfleusterau hamdden y Ddinas
- Theatr Glan yr Afon

Gwasanaethau Cwsmeriaid

- Budd-daliadau Tai – Mae Gwasanaethau Cwsmeriaid yn gweinyddu cronfeydd Budd-daliadau Tai, Credyd Cynhwysol a Thaliadau Tai yn ôl Disgresiwn ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn unol â rheoliadau a deddfwriaeth y Llywodraeth Ganolog. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth ffôn ac wyneb yn wyneb.
- Gweinyddu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dan bolisi mabwysiedig y Cyngor yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Gwasanaeth Wyneb yn Wyneb – Mae Gwasanaethau Cwsmeriaid yn darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb i drigolion Casnewydd gan ymateb ar unwaith i 60%+ o'r holl ymholiadau a rhoi'r ymholiadau sy'n weddill i'r gwasanaethau ar y safle neu'r swyddfeydd cefn i'w datrys. Cefnogi cwsmeriaid i gael mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer ymholiadau hunan-wasanaeth i'r Cyngor a gwasanaethau allweddol eraill yn yr ardal.

Mae Gwasanaethau Cwsmeriaid hefyd yn darparu gwasanaeth Derbynfa ym Mhrif Fynedfa'r Ganolfan Ddinesig. Mae Gwasanaethau Cwsmeriaid yn darparu'r gwasanaethau hyn ar ran holl wasanaethau'r Cyngor, gan gwmpasu pob math o ymholiadau a'r gwasanaethau a ddarperir.

- Canolfan Gyswllt y Ddinas – Gwasanaethau Cwsmeriaid sy'n darparu gwasanaeth ffôn, testun ac e-bost i drigolion Casnewydd gan ymateb ar unwaith i 60%+ o'r holl ymholiadau a rhoi'r ymholiadau sy'n weddill i swyddfeydd cefn i'w datrys. Hyrwyddo opsiynau hunan-wasanaeth i breswylwyr fel y bo'n briodol. Mae Gwasanaethau Cwsmeriaid yn darparu'r gwasanaethau hyn ar ran holl feysydd gwasanaeth y Cyngor, gan gwmpasu pob math o ymholiadau a gwasanaethau a ddarperir.
- Cwynion Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol – Cydgysylltu a rheoli polisi Canmol, Sylwadau a Chwynion y Cyngor a gweithdrefnau cysylltiedig; gan gynnwys asesu cwynion a dderbynnir i sefydlu'r fframwaith/fframwaith priodol y neilltuir hwy iddynt i'w datrys. Darparu ymgynghoriaeth, cyngor ac arweiniad i bob aelod o staff ar bolisi, gweithdrefn a deddfwriaeth sy'n ymwneud â chwynion. Cefnogi pob gwasanaeth i ddarparu ymateb sensitif ac effeithiol i gwsmeriaid i gwynion a sylwadau gan y cyhoedd sy'n sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol, yn unol â deddfwriaeth berthnasol; gan gynnwys datblygu strategaethau a pholisïau sy'n benodol i wasanaethau. Cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ddarparu adroddiadau a diweddariadau rheolaidd.
- Cymorth Gweithrediadau – Datblygu gwasanaethau sy'n cynnig i gwsmeriaid, dinasyddion a busnesau y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt drwy'r sianel fwyaf priodol. Cefnogi pob gwasanaeth i ddatblygu defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o dechnolegau a gwybodaeth, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein y Cyngor.

Rhoi cymorth i weithrediadau Gwasanaethau'r Ddinas fel y gallant gyrraedd y targedau perfformiad presennol a gofynion yn y dyfodol.

Cyllid

Cytunwyd ar gyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn y Cyngor ar 27 Chwefror 2020. Yn 2020/21 mae cyllideb refeniw sylfaenol Gwasanaethau'r Ddinas wedi'i osod ar £24,673,000. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, y gyllideb a osodwyd ar gyfer Gwasanaethau'r Ddinas oedd £23,722,000.

Rhaglenni a Phrosiectau Mawr

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-22, mae Gwasanaethau'r Ddinas yn cyflawni'r prosiectau canlynol:

Enw'r Rhaglen / Project	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Project a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Amcan(ion) Llesiant y mae'n ei/u g/cefnogi	A yw'r project hwn yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?	Thema(au) Corfforaethol	Dyddiad Dechrau'r Rhaglen / Project	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Project
Canol Dinas Lliniaru Cerbydau	Mae cyflawni'r prosiect hwn yn cefnogi amcan y Cyngor o adfywio canol y ddinas. Bydd hyn yn arwain at weithredu mesurau lliniaru cerbydau ffisegol yng Nghanol Dinas Casnewydd a fydd yn gwneud ardaloedd i gerddwyr yn ddiogel a deniadol i ymwelwyr eu defnyddio.	**Amcan Llesiant 2** - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd. **Amcan Llesiant 3** - I fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn **Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.	**Nod Adfer Strategol 2**	Dinas Ffyniannus Cymunedau Cryf	1 Ionawr 2021	30 Mawrth 2022

Enw'r Rhaglen / Project	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Project a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Amcan(ion) Llesiant y mae'n ei/u g/cefnogi	A yw'r project hwn yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?	Thema(au) Corfforaethol	Dyddiad Dechrau'r Rhaglen / Project	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Project
Datblygiadau Fy Nghasnewydd	Manteisio i'r eithaf ar lwyfan Fy Nghasnewydd i gefnogi Gwasanaethau'r Ddinas i gyflawni yn erbyn nodau ac amcanion y Cyngor o dan y bwrdd Cyngor Modern. • Gweithio symudol • Prosesau di-bapur • Gwybodaeth reoli gadarn • Rhesymoli systemau • Cyfrifon cwsmeriaid • Hunanwasanaeth	**Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy	**Nod Adfer Strategol 4**	Cyngor Modern	1 Hydref 2019	30 Medi 2020
Rhaglen Teithio Llesol	Mae'r rhaglen hon yn cyflenwi 11 o brojectau ar draws Casnewydd fel rhan o'r rhaglen grant Teithio Llesol. Mae cyflawni'r prosiectau hyn yn darparu dulliau teithio amgen i ddinasyddion ar draws y ddinas a symud oddi wrth ddefnyddio ceir. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teithio llesol yng nghanol y ddinas. Mae manteision y prosiectau hyn yn eang eu cwmpas gan gynnwys iechyd, gwella ansawdd aer, diogelwch cymunedol, mynd i'r afael â thlodi a chyfrannu at wella economi'r ddinas.	**Amcan Llesiant 1** - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd. **Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn gydnerth **Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.	**Nod Adfer Strategol 3**	Dinas Ffyniannus	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2021
Cyfleuster Ailgylchu Gwastraff y Cartref Newydd	Mae gan y Cyngor Strategaeth Wastraff hirdymor sy'n cyd-fynd â strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Bydd datblygu ail gyfleuster ailgylchu gwastraff yn cefnogi ymrwymiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor, yn cyfrannu at gyflawni targedau Llywodraeth Cymru ac yn lleddfu tagfeydd ar y Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol.	**Amcan Llesiant 2** - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd.	**Nod Adfer Strategol 2**	Dinas Ffyniannus	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022

Amcanion a Chamau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth 2020/21

Mae Gwasanaethau'r Ddinas wedi pennu 5 Amcan i'w cyflawni yn 2020/21:

Amcan 1 (Newydd) - Cyflwyno Mesurau Lliniaru Cerbydau yng Nghanol Dinas Casnewydd

Amcan 2 - Gwella perfformiad ailgylchu yn barhaus

Amcan 3 – Gwella teithio a chysylltedd ar draws y ddinas

Amcan 4 (Newydd) – Bod gan Gasnewydd amgylcheddau cynaliadwy, glân a diogel i bobl eu defnyddio a'u mwynhau.

Amcan 5 - Datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n rhai digidol o'u ddylunio

Amcan 1	**Cyflwyno Mesurau Lliniaru Cerbydau yng Nghanol Dinas Casnewydd**
Canlyniad(au) Amcan	Mae cyflawni'r prosiect hwn yn cefnogi amcan y Cyngor i adfywio canol y ddinas. Bydd hyn yn arwain at weithredu mesurau lliniaru cerbydau ffisegol yng Nghanol Dinas Casnewydd a fydd yn gwneud ardaloedd i gerddwyr yn ddiogel ac yn ddeniadol i ymwelwyr eu defnyddio. Bydd mesurau'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i folardiau PAS parhaol a rhai sy'n gostwng
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Amcan Llesiant 2** - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd. **Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn gydnerth **Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Dinas Ffyniannus** **Cymunedau Cryf**

Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Nodi ffynhonnell ariannu i ddarparu'r Lliniaru gofynnol ar Gerbydau Gelyniaethus LICG).	Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â rhoi arian cyfatebol i brosiect LICG Casnewydd a phwysau'r gyllideb o ganlyniad i'r pandemig COVID 19, nid yw'r cyllid ar gyfer y prosiect hwn wedi'i wireddu	**Nod Adfer Strategol 2**	Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas	1 Ebrill 2020	1 Ionawr 2021
2	Ailddechrau project ar ôl rhoi'n gorau iddi dros dro oherwydd ansicrwydd ariannol ac effaith COVID 19.	Ailymgysylltu â'r holl randdeiliaid gan gynnwys ymgynghorwyr arbenigol a chontractwyr a gymerwyd ymlaen cyn mis Mawrth 2019. Adnewyddu amcangyfrifon a	**Nod Adfer Strategol 2**	Uwch Reolwr Strategaeth	1 Ionawr 2021	31 Mawrth 2021

Amcan 1		**Cyflwyno Mesurau Lliniaru Cerbydau yng Nghanol Dinas Casnewydd**				
Canlyniad(au) Amcan		Mae cyflawni'r prosiect hwn yn cefnogi amcan y Cyngor i adfywio canol y ddinas. Bydd hyn yn arwain at weithredu mesurau lliniaru cerbydau ffisegol yng Nghanol Dinas Casnewydd a fydd yn gwneud ardaloedd i gerddwyr yn ddiogel ac yn ddeniadol i ymwelwyr eu defnyddio. Bydd mesurau'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i folardiau PAS parhaol a rhai sy'n gostwng				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Amcan Llesiant 2** - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd. **Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn gydnerth **Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Dinas Ffyniannus** **Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
		rhaglenni gwaith. Cytuno ar ddyluniad manwl terfynol				
3	Adeiladu mesurau ffisegol yng nghanol y ddinas.	Bydd y camau'n cael eu cymryd mewn cydweithrediad â'r contractwr a ffefrir. Drwy gydol y broses hon, cynhelir ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a'u cynnwys er mwyn sicrhau bod yr holl gydsyniadau a chytundebau angenrheidiol (statudol ac anstatudol) yn cael eu hystyried.	Ddim yn berthnasol	Uwch Reolwr Strategaeth	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
4	Cydweithio â phartneriaid allweddol i gadarnhau oriau gweithredu gan gynnwys unrhyw newidiadau Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a weithredwyd i gyfyngu ar fynediad i gerbydau.	Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r mesurau ffisegol yng nghanol y ddinas, sicrhau bod y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol ar waith. Cyflawnir y cam hwn drwy: • Ymgynghori â rhanddeiliaid ar oriau gweithredu arfaethedig. • Cydweithio â Heddlu Gwent a Chynlluniau Argyfyngau Sifil. • Hysbyseb statudol o'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig newydd.	Ddim yn berthnasol	Uwch Reolwr Strategaeth	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021

Amcan 1	**Cyflwyno Mesurau Lliniaru Cerbydau yng Nghanol Dinas Casnewydd**
Canlyniad(au) Amcan	Mae cyflawni'r prosiect hwn yn cefnogi amcan y Cyngor i adfywio canol y ddinas. Bydd hyn yn arwain at weithredu mesurau lliniaru cerbydau ffisegol yng Nghanol Dinas Casnewydd a fydd yn gwneud ardaloedd i gerddwyr yn ddiogel ac yn ddeniadol i ymwelwyr eu defnyddio. Bydd mesurau'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i folardiau PAS parhaol a rhai sy'n gostwng
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Amcan Llesiant 2** - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd. **Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn gydnerth **Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Dinas Ffyniannus** **Cymunedau Cryf**

Rhif Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:	Canlyniad(au) y Cam Gweithredu	A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?	Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu	Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu	Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig
		• Rhoi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig newydd ar waith.				
5	Cytuno ar a rhoi protocol ar waith ar gyfer gweithredu'r cynllun i fod yn fusnes fel arfer.	Drwy gydweithio â Diogelu'r Cyhoedd a chyn ei weithredu byddwn yn datblygu protocolau i weithredu'r mesurau a'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig newydd. Fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor, caiff y rhain eu cymeradwyo gan y Cyngor cyn eu gweithredu.	Ddim yn berthnasol	Uwch Reolwr Strategaeth	1 Medi 2021	30 Tachwedd 2021

Amcan 2		**Gwella perfformiad ailgylchu yn barhaus**				
Canlyniad(au) Amcan		Mae angen i'r Cyngor gyrraedd y targedau ailgylchu a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn eu strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei strategaeth ei hun a darparu ar gyfer yr holl wahanol wasanaethau a gweithgareddau gwastraff a dod o hyd i ddulliau gwahanol o wella perfformiad. Mae hyn yn cysylltu'n ôl â'r cynllun **Corfforaethol** 2017-2022, drwy gynnwys gweithgareddau sy'n dod o fewn ymeysydd ymyrraeth **Cyngor Modern** a **Dinas ffyniannus,** ac ymrwymiad penodol i **adeiladu Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd** i wella gweithgareddau ailgylchu a hyrwyddo balchder cymunedol. Mae cysylltiadau hefyd â Chynllun Llesiant Casnewydd, gan fod **Amcan Llesiant 2 – Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio tra'n diogelu'r amgylchedd** yn darparu ar gyfer manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd amgylcheddol a chynyddu ailgylchu gwastraff y cartref a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r **argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru** bod y Cyngor yn cymeradwyo **strategaeth wastraff newydd** sy'n gosod ei gynlluniau ger bron i gyflawni perfformiad yn y tymor hir.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Amcan Llesiant 2**				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Dinas Ffyniannus**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Strategaeth Wastraff: monitro cynlluniau gweithredu blynyddol bob blwyddyn	Adolygu strategaeth wastraff gyffredinol i fesur cynnydd a chanlyniadau dros amser, yn ogystal â monitro gweithrediad ac effaith y gwahanol weithgareddau a chamau gweithredu sy'n deillio ohono.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2021
2	Gwella gwasanaethau gwastraff masnachol: Gweithredu casgliadau ailgylchu a ddidolwyd a ddarperir gan gyflenwyr allanol Archwilio opsiynau i sicrhau'r gweithgarwch gwerthu mwyaf posibl ar gyfer y gwasanaethau gwastraff masnachol Archwilio opsiynau ar gyfer gwella casgliadau gwastraff masnachol yng Nghanol Dinas Casnewydd	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn galluogi'r Cyngor i: • Gyfrannu at gyrraedd targedau dargyfeirio tirlenwi. • Darparu gwasanaethau ailgylchu helaeth i fusnesau a gwastraff masnachol. • Cydweithio a chynnwys y sector busnes i nodi cyfleoedd a rhwystrau i wella cyfraddau ailgylchu ar gyfer gwastraff masnachol.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau	1 Ionawr 2020	31 Mawrth 2022
3	Adeiladu canolfan ailgylchu gwastraff y cartref newydd: Cwblhau'r chwiliad safle	Mae cyflawni'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at ymrwymiad Corfforaethol y Cyngor i	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau	1 Ionawr 2020	31 Mawrth 2022

Amcan 2		**Gwella perfformiad ailgylchu yn barhaus**				
Canlyniad(au) Amcan		Mae angen i'r Cyngor gyrraedd y targedau ailgylchu a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn eu strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei strategaeth ei hun a darparu ar gyfer yr holl wahanol wasanaethau a gweithgareddau gwastraff a dod o hyd i ddulliau gwahanol o wella perfformiad. Mae hyn yn cysylltu'n ôl â'r cynllun **Corfforaethol** 2017-2022, drwy gynnwys gweithgareddau sy'n dod o fewn ymeysydd ymyrraeth **Cyngor Modern** a **Dinas ffyniannus,** ac ymrwymiad penodol i **adeiladu Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd** i wella gweithgareddau ailgylchu a hyrwyddo balchder cymunedol. Mae cysylltiadau hefyd â Chynllun Llesiant Casnewydd, gan fod **Amcan Llesiant 2 – Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio tra'n diogelu'r amgylchedd** yn darparu ar gyfer manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd amgylcheddol a chynyddu ailgylchu gwastraff y cartref a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r **argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru** bod y Cyngor yn cymeradwyo **strategaeth wastraff newydd** sy'n gosod ei gynlluniau ger bron i gyflawni perfformiad yn y tymor hir.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Amcan Llesiant 2**				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Dinas Ffyniannus**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
	Cwblhau'r gwaith dylunio a phennu costau terfynol y prosiect Cymeradwyo ar gyfer opsiynau prosiect ac ariannu terfynol Y Cam Adeiladu	adeiladu cyfleuster gwastraff y cartref newydd a chyflawni Strategaeth Wastraff y Cyngor. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i: • Gynyddu perfformiad ailgylchu a gweithio tuag at gyrraedd targed dyfodol diwastraff Llywodraeth Cymru. • Gwella gallu dinasyddion Casnewydd i ailgylchu eu gwastraff ac adeiladu ar falchder cymunedol yn y ddinas. • Yn cefnogi Strategaeth Wastraff y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ailgylchu helaeth.				
4	Cynyddu ailgylchu o gasgliadau ddaw o fflatiau.	Wrth gyflawni'r cam gweithredu hwn, byddwn yn cynnwys ac yn galluogi dinasyddion sy'n byw mewn fflatiau ledled y ddinas i gynyddu eu cyfraniad tuag at	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021

Amcan 2		**Gwella perfformiad ailgylchu yn barhaus**				
Canlyniad(au) Amcan		Mae angen i'r Cyngor gyrraedd y targedau ailgylchu a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn eu strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei strategaeth ei hun a darparu ar gyfer yr holl wahanol wasanaethau a gweithgareddau gwastraff a dod o hyd i ddulliau gwahanol o wella perfformiad. Mae hyn yn cysylltu'n ôl â'r cynllun **Corfforaethol** 2017-2022, drwy gynnwys gweithgareddau sy'n dod o fewn ymeysydd ymyrraeth **Cyngor Modern** a **Dinas ffyniannus,** ac ymrwymiad penodol i **adeiladu Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd** i wella gweithgareddau ailgylchu a hyrwyddo balchder cymunedol. Mae cysylltiadau hefyd â Chynllun Llesiant Casnewydd, gan fod **Amcan Llesiant 2 – Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio tra'n diogelu'r amgylchedd** yn darparu ar gyfer manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd amgylcheddol a chynyddu ailgylchu gwastraff y cartref a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r **argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru** bod y Cyngor yn cymeradwyo **strategaeth wastraff newydd** sy'n gosod ei gynlluniau ger bron i gyflawni perfformiad yn y tymor hir.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Amcan Llesiant 2**				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Dinas Ffyniannus**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
		wella eu perfformiad ailgylchu. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at: • Wella amgylchedd, a chydlyniant cymunedol trigolion sy'n byw mewn fflatiau a'r ardaloedd cyfagos. • Lleihau effaith tipio anghyfreithlon o amgylch fflatiau a'r ardal gyfagos. • Galluogi'r Cyngor i gyflawni ei dargedau ailgylchu.				

Amcan 3	**Gwella teithio a chysylltedd ar draws y ddinas**
Canlyniad(au) Amcan	Bydd cyflawni'r amcan hwn yn cyfrannu at yr amcan hirdymor o greu ac annog amgylchedd lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn cael blaenoriaeth dros ddefnyddio'r car. Drwy gyflawni gwahanol brosiectau megis Teithio Llesol, a Chomisiwn Trafnidiaeth De Cymru, bydd hyn hefyd yn cael effaith ar wella iechyd a lles dinasyddion Casnewydd, gwella ansawdd yr aer ar draws y ddinas a gwella cadernid cymunedau i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at Gynnig Casnewydd a'r Strategaeth Twf Economaidd i ddenu busnesau, ymwelwyr a thrigolion i'r ddinas fel lle i fyw, gweithio a chwarae ynddi.
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Amcan Llesiant 2** - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd. **Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn gydnerth **Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Dinas Ffyniannus** **Cymunedau Cryf**

Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Cymryd camau i gyflawni dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol o dan y Ddeddf Teithio Llesol gan gynnwys cyhoeddi a hyrwyddo'r map rhwydwaith integredig.	Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal a diweddaru'r Map Llwybrau Presennol (MLIP/*ERM*) a'r Map Rhwydwaith Integredig (MRhI//*INM*). Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i hyrwyddo llwybrau Teithio Llesol ar draws y Ddinas a galluogi dinasyddion ac ymwelwyr i ddefnyddio cysylltiadau teithio amgen ar wahân i'r car.	**Nod Adfer Strategol 3**	Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
2	Cytunwyd ar brosiectau Teithio Llesol ledled Casnewydd a'u cyflawni fel rhan o ddyraniad y gronfa drafnidiaeth leol.	Bydd yr holl waith y cytunwyd arno fel rhan o'r dyraniad cyllid yn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd cyflwyniadau bid ar gyfer cyllid yn 2020-21. Bydd cyflawni'r prosiectau hyn ar draws y ddinas yn cyfrannu at alluogi'r ddinas i ddefnyddio mwy o drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio dros ddefnydd o geir.	**Nod Adfer Strategol 3**	Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
3	Cydweithio â phartneriaid a'r gymuned i sicrhau gwelliannau rhanbarthol a lleol a fydd yn	Cydweithio â phartneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys	**Nod Adfer Strategol 3**	Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021

Amcan 3		**Gwella teithio a chysylltedd ar draws y ddinas**				
Canlyniad(au) Amcan		Bydd cyflawni'r amcan hwn yn cyfrannu at yr amcan hirdymor o greu ac annog amgylchedd lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn cael blaenoriaeth dros ddefnyddio'r car. Drwy gyflawni gwahanol brosiectau megis Teithio Llesol, a Chomisiwn Trafnidiaeth De Cymru, bydd hyn hefyd yn cael effaith ar wella iechyd a lles dinasyddion Casnewydd, gwella ansawdd yr aer ar draws y ddinas a gwella cadernid cymunedau i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at Gynnig Casnewydd a'r Strategaeth Twf Economaidd i ddenu busnesau, ymwelwyr a thrigolion i'r ddinas fel lle i fyw, gweithio a chwarae ynddi.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Amcan Llesiant 2** - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd. **Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn gydnerth **Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Dinas Ffyniannus** **Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
	sicrhau manteision iechyd ac amgylcheddol hirdymor.	Bwrdd Iechyd y Cyhoedd, a grwpiau rhanbarthol eraill e.e. Grŵp Teithio Cynaliadwy, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gynllunio a datblygu cynlluniau cynaliadwy i wella cysylltiadau teithio a chysylltedd ar draws y rhanbarth. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at brosiectau lleol fel Teithio Llesol, Sustrans, Ysgolion y 21 Ganrif i wella mynediad a chysylltiadau teithio ar gyfer cymunedau. Mae hyn hefyd yn galluogi manteision amgylcheddol drwy wella ansawdd aer, annog ffyrdd iach o fyw drwy gerdded, beicio a dulliau teithio eraill.				
